Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Cytundebau rhyngwladol

## Cytundebau a ystyriwyd ar 7 Mai 2024

Mehefin 2024

senedd.cymru

# 1. Cefndir

**1.** Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

**2.** Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.

**3.** Mae'r Pwyllgor yn trafod yr effaith ar Gymru yn sgil cytundebau rhyngwladol a osodir yn Senedd y DU o dan y broses a sefydlwyd gan *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010* ("Deddf 2010"). Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.

**4.** Mae ein hystyriaeth o gytundeb rhyngwladol yn ystyried y canlynol:

- a yw'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd; a/neu
- a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.

**5.** Ar 7 Mai 2024[1], fe wnaethom ystyried wyth cytundeb rhyngwladol a oedd wedi'u gosod yn ddiweddar yn Senedd y DU:

- DU/Denmarc: Cytundeb ar gyfranogiad gwladolion y ddwy wlad sy'n byw yn nhiriogaeth y llall mewn etholiadau penodol
- Sefydliad Coedwig y DU/Ewrop: Cytundeb Gwlad Lletyol
- Confensiwn ar Sefydlu'r 'Rhaglen Brwydro Aer Byd-eang – GCAP Sefydliad Llywodraeth Rhyngwladol'
- DU/Hwngari: Cytundeb ynghylch Diogelu Gwybodaeth Gyfrinachol
- DU-Sawdi Arabia: Cytundeb Gwasanaethau Awyr
- DU/Bahrain: Cytundeb ynghylch Gwasanaethau Awyr
- Confensiwn yr Hâg ar Gydnabod a Gorfodi Dyfarniadau Tramor mewn Materion Sifil neu Fasnachol

[1] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 7 Mai 2024

- Diwygio Erthyglau Cytundeb y Banc Rhyngwladol ar gyfer Ailadeiladu a Datblygu (IBRD) i ddileu'r Terfyn Benthyca Statudol (SLL)

**6.** Gwnaethom gytuno i gymryd camau pellach mewn perthynas â dau o'r cytundebau hyn. Mae manylion pob un o'r cytundebau, a'n camau gweithredu priodol, wedi'u nodi isod.

**7.** Fe wnaethom hefyd drafod a nodi gohebiaeth ynghylch cytundebau rhyngwladol yr ydym wedi'u trafod o'r blaen.

# 2. Cytundebau y mae angen gweithredu pellach yn eu cylch

**DU/Denmarc: Cytundeb ar gyfranogiad gwladolion y ddwy wlad sy'n byw yn nhiriogaeth y llall mewn etholiadau penodol**

**8.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 8 Chwefror 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, oedd 25 Mawrth 2024.

**9.** Mae'r cytundeb yn darparu'r hawl i wladolion Denmarc yn y DU sefyll a phleidleisio mewn etholiadau lleol (ac i'r gwrthwyneb).

**10.** Gwnaeth ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd newid hawliau ymgeisyddiaeth a phleidleisio gwladolion y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd a dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig.

**11.** Yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, mae hawliau gwladolion y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd bellach yn ddibynnol ar reolau etholaethol yr Aelod-wladwriaeth dan sylw. Daeth hawliau awtomatig dinasyddion yr UE sy'n preswylio yn y DU i bleidleisio mewn etholiadau lleol i ben ar 7 Mai 2024 (sef y dyddiad y cychwynnwyd y newid etholfraint a wnaed gan *Ddeddf Etholiadau 2022* (Deddf 2022)). O ganlyniad i hynny, bydd gwladolion yr UE ond yn gallu cofrestru a phleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr os ydyn nhw'n ddinasyddion cymwys o'r UE neu'n ddinasyddion yr UE sydd â hawliau a gedwir. Mae person yn ddinesydd cymwys o'r UE os yw'n ddinesydd Aelod-wladwriaeth o'r UE y mae gan y DU gytundeb fel hwn â hi, ynghylch pleidleisio a hawliau ymgeisyddiaeth.

**12.** Fodd bynnag, yng Nghymru, mae gan ddinesydd perthnasol o'r Undeb Ewropeaidd neu ddinesydd tramor cymwys hawl i bleidleisio fel etholwr mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, yn dilyn newidiadau a wnaed gan Ddeddf 2022 i *Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983* ("Deddf 1983"). Mae hawl gan ddiansyddion tramor cymwys, a ddiffinnir gan adran 202 o Ddeddf 1983, i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd (adran 11 o *Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020*). Yn yr Alban, caiff dinasyddion tramor cymwys bleidleisio hefyd mewn etholiadau llywodraeth leol yn yr Alban ac etholiadau Senedd yr Alban.

**13.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen unrhyw ddeddfwriaeth ddatganoledig newydd i roi'r cytundeb ar waith. Fodd bynnag,

bydd offeryn statudol yn diwygio Deddf 2022 i adlewyrchu'r cytundeb, fel y bydd dinasyddion Denmarc yn cael eu cydnabod fel dinasyddion cymwys yr UE, a fydd yn eu galluogi i sefyll a phleidleisio.[2]

**14.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau bod cynnwys y cytundeb yn cynnwys materion sydd wedi'u datganoli i Gymru, ac yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn caniatáu i bob gwladolyn tramor sy'n preswylio'n gyfreithiol gymryd rhan mewn etholiadau lleol, gan gynnwys dinasyddion Denmarc.

**15.** Mae'n nodi nad oes angen deddfwriaeth ddatganoledig i weithredu elfennau pleidleisio ac ymgeisyddiaeth y cytundeb yng Nghymru, ac yn nodi'r hyn a ganlyn:

> *"The Scottish Government and Welsh Government were consulted and are content with the approach of the Treaty. The UK Government shared the relevant draft text in advance of signature."*[3]

**16.** Ym mis Gorffennaf 2019, ysgrifennodd y cyn-Brif Weinidog at y Llywydd i dynnu sylw at ei bryderon ynghylch y trefniadau addasu yng nghytundebau pleidleisio dwyochrog y DU gydag aelod-wladwriaethau unigol yr UE.[4]

**17.** Dywedodd y cyn-Brif Weinidog fod Llywodraeth y DU yn "cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol y sefydliadau datganoledig" gan na fyddai modd i Senedd yn y dyfodol ddeddfu i dynnu'r rhyddfraint oddi ar ddinasyddion o'r fath. Hefyd, pwysleisiodd bod angen proses ar gyfer dileu Cymru o'r mecanwaith hwn os bydd Senedd yn y dyfodol yn mabwysiadu'r safbwynt gwleidyddol hwn.[5]

**18.** Gwnaethom gytuno i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ei asesiad o'r cytundeb a gofyn am ragor o wybodaeth am yr hyn a ganlyn:

- a yw'r mater a godwyd gan y cyn-Brif Weinidog wedi cael ei ddatrys;
- os nad yw'r mater wedi'i ddatrys, a yw wedi ystyried defnyddio unrhyw ddulliau deddfwriaethol, megis cyflwyno diwygiadau i'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), i ofyn am ei benderfyniad;

[2] Llywodraeth y DU, Explanatory Memorandum: UK/Denmark: Agreement on the Participation in Certain Elections of Nationals of Each Country Resident in the Territory of the Other, Chwefror 2024, paragraff 5.1
[3] Explanatory Memorandum: UK/Denmark: Agreement on the Participation in Certain Elections of Nationals of Each Country Resident in the Territory of the Other, paragraff 10
[4] Llythyr gan y Prif Weinidog at y Pwyllgor Busnes, 3 Gorffennaf 2019
[5] Llythyr gan y Prif Weinidog at y Pwyllgor Busnes, 3 Gorffennaf 2019

- a yw wedi ystyried defnyddio deddfwriaeth frys i wyrdroi unrhyw gamau deddfwriaethol posibl gan Lywodraeth y DU i ddileu neu gyfyngu ar hawl gwladolion o Aelod-wladwriaeth benodol o'r UE i sefyll a phleidleisio mewn unrhyw etholiadau lleol yn y DU, er mwyn galluogi'r dinasyddion hynny i barhau i gael eu rhyddfreinio mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru.

**19.** Wedi hynny, gwnaethom ysgrifennu at y Prif Weinidog ar 16 Mai 2024, a thynnu sylw'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol at yr ohebiaeth, gan ei fod yn monitro hawliau dinasyddion o dan y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE. Gwnaethom dynnu sylw'r Llywydd hefyd at y datblygiad diweddaraf hwn mewn cyfraith etholiadol yng Nghymru.

**Sefydliad Coedwig y DU/Ewrop: Cytundeb Gwlad Lletyol**

**20.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 21 Mawrth 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, oedd 14 Mai 2024.

**21.** Pwrpas y cytundeb hwn yw darparu'r breintiau a'r imiwneddau sy'n angenrheidiol i Sefydliad Coedwig Ewrop er mwyn iddo weithredu'n effeithiol yn y DU.

**22.** Mae Sefydliad Coedwig Ewrop yn sefydliad rhyngwladol a sefydlwyd i gynnal gwaith ymchwil a darparu cyngor polisi ar faterion sy'n ymwneud â choedwigoedd. Llofnododd y DU Gonfensiwn Sefydliad Coedwig Ewrop yn 2003 ac mae'n aelod o'i Chyngor.[6]

**23.** Er mwyn galluogi mwy o gydweithio â'r sefydliad gan gynnwys sefydlu swyddfa yn y DU, mae angen rhoi set benodol o freintiau ac imiwnedd i Sefydliad Coedwig Ewrop ar gyfer ei weithgareddau yn y DU.

**24.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau bod angen is-ddeddfwriaeth i roi'r cytundeb hwn ar waith.[7]

**25.** Mae aelodaeth y DU o sefydliadau rhyngwladol a rhoi breintiau ac imiwnedd o dan gyfraith ryngwladol yn faterion a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU.

**26.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig ar faterion gweithredol a allai gael eu

[6] Llywodraeth y DU, Explanatpry Memorandum: UK/European Forest Institute: Host Country Agreement, Mawrth 2024, paragraff 3.1
[7] Explanatory Memorandum: UK/European Forest Institute: Host Country Agreement, paragraff 5.1

datganoli, fel cyfiawnder neu blismona, ac mae'n cyfeirio at Lywodraeth yr Alban yn unig.[8]

**27.** Gan fod cyfiawnder a phlismona yn faterion a gadwyd yn ôl, ni fydd y cytundeb yn effeithio ar faterion datganoledig yn yr un modd ag y gallai effeithio ar feysydd cyfrifoldeb Llywodraeth yr Alban.

**28.** Er bod y materion a gwmpesir gan y cytundeb yn rhai a ddargedwir, cytunodd y Pwyllgor i hysbysu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith am y cytundeb, o ystyried diddordeb y Pwyllgor hwnnw mewn coedwigaeth fel mater datganoledig.

[8] Explanatory Memorandum: UK/European Forest Institute: Host Country Agreement, paragraff 10

# 3. Cytundebau a nodwyd er gwybodaeth

### Confensiwn ar Sefydlu'r 'Rhaglen Brwydro Aer Byd-eang – GCAP Sefydliad Llywodraeth Rhyngwladol'

**29.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 26 Chwefror 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, oedd 16 Ebrill 2024.

**30.** Diben y cytundeb yw sefydlu Rhaglen Brwydro Aer Byd-eang – GCAP Sefydliad Llywodraeth Rhyngwladol a'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer ei gweithredu. Yn ôl Memorandwm Esboniadol y cytundeb, mae'r GCAP yn bartneriaeth ryngwladol rhwng y DU, Japan a'r Eidal i ddarparu awyrennau brwydro ar gyfer y genhedlaeth nesaf erbyn 2035.[9]

**31.** Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi y bydd angen i Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban baratoi is-ddeddfwriaeth i roi'r cytundeb hwn ar waith.[10]

**32.** Ni ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru o ran drafftio'r cytundeb gan ei fod yn ymwneud yn llawn â mater a gadwyd yn ôl heb unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r llywodraethau datganoledig.[11]

**33.** Gan fod y cytundeb rhyngwladol hwn yn ymwneud â mater nad yw wedi'i ddatganoli i'r Senedd – sef hedfan – cytunwyd i nodi'r cytundeb hwn er gwybodaeth yn unig.

### DU/Hwngari: Cytundeb ynghylch Diogelu Gwybodaeth Gyfrinachol

**34.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 13 Mawrth 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, oedd 2 Mai 2024.

**35.** Diben y cytundeb hwn yw darparu sail gyfreithiol ar gyfer diogelu gwybodaeth gyfrinachol a gyfnewidir rhwng y DU a Hwngari, a allai gynnwys pynciau fel amddiffyn, gorfodi'r gyfraith, gwrthderfysgaeth a diogelwch. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Cytundeb yn datgan nad yw'n gorfodi'r naill barti na'r llall i ddarparu gwybodaeth gyfrinachol i'r llall; dim ond mecanwaith

[9] Llywodraeth y DU, Explanatory Memorandum on the Convention on the Establishment of the 'Global Combat Air Programme – GCAP International Government Organisation', Chwefror 2024
[10] Memorandwm Esboniadol, paragraff 5
[11] Memorandwm Esboniadol, paragraff 10

cyfreithiol y mae'n ei ddarparu ar gyfer awdurdodau'r Llywodraeth, a chwmnïau o dan gontract dosbarthedig, i hwyluso unrhyw gyfnewid.[12]

**36.** Mae’r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi nad oes angen unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig newydd i ddod â’r cytundeb hwn i rym.[13]

**37.** Ni ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru o ran drafftio’r cytundeb gan ei fod yn ymwneud yn llawn â mater a gadwyd yn ôl heb unrhyw oblygiadau i’r llywodraethau datganoledig.[14]

**38.** Gan fod y cytundeb rhyngwladol hwn yn ymwneud â materion nad ydynt wedi’u datganoli i’r Senedd – sef diogelwch cenedlaethol – cytunwyd i nodi’r cytundeb hwn er gwybodaeth yn unig.

### DU-Sawdi Arabia: Cytundeb Gwasanaethau Awyr

**39.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 21 Mawrth 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy’n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, oedd 14 Mai 2024.

**40.** Diben y cytundeb hwn yw rhoi’r fframwaith cyfreithiol mewn cyfraith ryngwladol ar gyfer gwasanaethau awyr rhwng ac y tu hwnt i’r DU a Sawdi Arabia.

**41.** Mae’r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y cytundeb yn nodi nad oes angen unrhyw ddeddfwriaeth newydd i roi’r cytundeb ar waith.[15]

**42.** Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi er nad yw’r cytundeb yn ymwneud â mater datganoledig:

> *“… it impacts upon air services between the Devolved Administrations and Saudi Arabia, and the Devolved Administrations have been kept aware of the UK’s new air services agreements and no concerns have been raised regarding this Agreement.”*[16]

---

[12] Llywodraeth y DU, Explanatory Memorandum on the Agreement between the Government of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland and the Government of Hungary concerning the Protection of Classified Information, Mawrth 2024
[13] Memorandwm Esboniadol, paragraff 5.1
[14] Memorandwm Esboniadol, paragraff 10.1
[15] Llywodraeth y DU, Explanatory Memorandum on the Air Services Agreement between the Government of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland and the Government of the Kingdom of Saudi Arabia, Mawrth 2024, paragraff 5.1
[16] Memorandwm Esboniadol, paragraff 10.1

**43.** Gan fod y cytundeb rhyngwladol hwn yn ymwneud â materion nad ydynt wedi'u datganoli i'r Senedd – sef hedfan – cytunwyd i nodi'r cytundeb hwn er gwybodaeth yn unig.

### DU/Bahrain: Cytundeb ynghylch Gwasanaethau Awyr

**44.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 22 Mawrth 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, oedd 15 Mai 2024.

**45.** Y diben yw rhoi'r fframwaith cyfreithiol mewn cyfraith ryngwladol ar gyfer gwasanaethau awyr rhwng ac y tu hwnt i'r DU a Bahrain.

**46.** Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y cytundeb yn nodi nad oes angen unrhyw ddeddfwriaeth newydd i roi'r cytundeb ar waith.[17]

**47.** Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi er nad yw'r cytundeb yn ymwneud â mater datganoledig:

> *"… it impacts upon air services between the Devolved Administrations and Bahrain, and the Devolved Administrations have been kept aware of the UK's new air services agreements and no concerns have been raised regarding this Agreement."*[18]

**48.** Gan fod y cytundeb rhyngwladol hwn yn ymwneud â materion nad ydynt wedi'u datganoli i'r Senedd – sef hedfan – cytunwyd i nodi'r cytundeb hwn er gwybodaeth yn unig.

### Confensiwn yr Hâg ar Gydnabod a Gorfodi Dyfarniadau Tramor mewn Materion Sifil neu Fasnachol

**49.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 25 Mawrth 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, oedd 16 Mai 2024.

**50.** Diben y cytundeb yw darparu fframwaith o reolau cyffredin i hwyluso'r gwaith o gydnabod a gorfodi dyfarniadau o un Wladwriaeth Gontractio i'r llall ac

---

[17] Llywodraeth y DU, Explanatory Memorandum on the Agreement between the Government of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland and the Government of the Kingdom of Bahrain concerning Air Services, Mawrth 2024, paragraff 5.1
[18] Memorandwm Esboniadol, paragraff 10.1

mae’n ei gwneud yn ofynnol i’r gwladwriaethau hynny gydnabod a gorfodi dyfarniadau sifil a masnachol o fewn cwmpas y Confensiwn.

**51.** Mae’r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y cytundeb yn nodi y bydd yn cael ei weithredu i’r DU gan ddefnyddio’r pwerau yn *Neddf Cyfraith Ryngwladol Breifat (Gweithredu Cytundebau) 2020*. Mae hefyd yn nodi y bydd gweithredu'r cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i reolau llys gael eu diwygio ym mhob un o dair awdurdodaeth y DU.[19]

**52.** O ran datganoli, mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

> *“The territorial application of the Convention is intended to be the whole of the UK. As the implementation of such agreements is a devolved matter for Scotland and Northern Ireland, officials from the Ministry of Justice are working closely with the Devolved Governments to ensure that the Convention can be implemented, and thus applied, UK-wide.”*[20]

**53.** Mae hefyd yn nodi:

> *“The Convention relates to an area of private international law, which is devolved to Scotland and Northern Ireland, and is reserved in respect to Wales, and the UK Government consulted the Devolved Governments on the Convention and shared the relevant draft text in advance of signature.”*[21]

**54.** Gan fod y cytundeb rhyngwladol hwn yn ymwneud â materion nad ydynt wedi’u datganoli i’r Senedd – sef cyfraith ryngwladol preifat – cytunwyd i nodi’r cytundeb hwn er gwybodaeth yn unig.

### Diwygio Erthyglau Cytundeb y Banc Rhyngwladol ar gyfer Ailadeiladu a Datblygu (IBRD) i ddileu'r Terfyn Benthyca Statudol (SLL)

**55.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 25 Mawrth 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy’n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, oedd 16 Mai 2024.

[19] Llywodraeth y DU, Explanatory Memorandum on the Convention on the Recognition and Enforcement of Foreign Judgments in Civil or Commercial Matters, Mawrth 2024, paragraffau 5.1–5.2
[20] Memorandwm Esboniadol, paragraff 6.1
[21] Memorandwm Esboniadol, paragraff 10.1

**56.** Diben y cytundeb hwn yw dileu terfyn benthyca statudol y Banc Rhyngwladol ar gyfer Ailadeiladu a Datblygu (IBRD) fel rhan o'r broses o weithredu argymhellion ei adolygiad o'r fframwaith digonolrwydd cyfalaf.

**57.** Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y cytundeb yn nodi nad oes angen deddfwriaeth weithredu, a gan fod ei gynnwys polisi yn ymwneud yn llawn â mater a ddargedwir, ni ymgynghorwyd â'r llywodraethau datganoledig ynghylch ei ddrafftio.[22]

**58.** Gan fod y cytundeb rhyngwladol hwn yn ymwneud â materion nad ydynt wedi'u datganoli i'r Senedd – sef gwasanaethau ariannol a bancio – cytunwyd i nodi'r cytundeb hwn er gwybodaeth yn unig.

[22] Llywodraeth y DU, Explanatory Memorandum on the Amendment of the Articles of Agreement of the International Bank for Reconstruction and Development (IBRD) to remove the Statutory Lending Limit (SLL), Mawrth 2024, paragraffau 5 a 10

# 4. Gohebiaeth yn ymwneud â chytundebau a drafodwyd yn flaenorol

**Y DU/Rwanda: Cytundeb ar gyfer darparu partneriaeth lloches i gryfhau ymrwymiadau rhyngwladol a rennir ar amddiffyn ffoaduriaid a mudwyr**

**59.** Yn dilyn ein hystyriaethau o'r cytundeb uchod yn ein cyfarfod ar 8 Ionawr 2024, gwnaethom ysgrifennu[23] at Lywodraeth Cymru i ofyn am ei farn ar faterion penodol sy'n codi o'r cytundeb a'i fod yn gweithredu Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo), gan gynnwys rhwymedigaethau rhyngwladol a Chonfensiwn Sewel.

**60.** Gwnaeth Mark Drakeford AS, y cyn Brif Weinidog, ysgrifennu ymateb i ni ar 21 Chwefror 2024, a nododd:

> *"Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Gweinidogion Cymru wedi datgan dro ar ôl tro – a dyma yw ein barn o hyd – nad yw cynigion i gadw'n gaeth a symud ymaith bawb sy'n cyrraedd drwy ddulliau afreolaidd yn ymarferol nac yn foesegol. Rydym wedi ei gwneud yn glir bod angen i system effeithiol gydymffurfio â Chonfensiwn Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae hefyd angen i system effeithiol gynnwys cytundebau dychwelyd effeithiol â gwledydd diogel lle y mae cysylltiadau yn bodoli, a llwybrau diogel a chyfreithlon digonol i'r DU."*[24]

**61.** Dywedodd hefyd, gan ei fod yn ystyried bod cynnwys y cytundeb a'r Bil (sydd bellach yn Ddeddf) i'r ddau yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl, nad yw Confensiwn Sewel yn cael ei weithredu.

**62.** Fodd bynnag, dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn "bryderus o hyd na all yr Ysgrifennydd Cartref ddatgan bod y Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac y dylai dyfarniad y Goruchaf Lys ei gwneud yn glir a yw Rwanda yn ddiogel ai peidio."

---

[23] Llythyr at y Prif Weinidog, 26 Ionawr 2024
[24] Llythyr gan y Prif Weinidog, 21 Chwefror 2024

### Confensiwn UNESCO 2003 ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol

**63.** Yn dilyn ein hystyriaeth o'r cytundeb uchod yn ein cyfarfod ar 5 Chwefror 2024, gwnaethom rannu ein dadansoddiad o'r cytundeb gyda'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.[25]

**64.** Ysgrifennodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol wedi hynny at Lywodraeth y DU[26] ac at Lywodraeth Cymru[27] i gael rhagor o wybodaeth am y Confensiwn, gan gynnwys y trefniadau ymarferol a'r manteision posibl i Gymru.

**65.** Mewn ymateb i hynny, dywedodd Gweinidog Llywodraeth y DU ar dros Gelfyddydau a Threftadaeth ei fod wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r weinyddiaeth ddatganoledig i baratoi ar gyfer cadarnhau'r cytundeb.[28]

**66.** Ar ran Llywodraeth Cymru, dywedodd Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ar y pryd, ei bod yn croesawu cynnig Llywodraeth Cymru i gadarnhau'r cytundeb, gan ei ddisgrifio fel a ganlyn:

> *"Dyma gyfle i godi ymwybyddiaeth a phroffil Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol (ICH) yng Nghymru er budd cenedlaethau presennol a'r dyfodol ac i arddangos y traddodiadau a'r treftadaeth amrywiol sy'n bodoli yma."*[29]

[25] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnodion
[26] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 9 Chwefror 2024
[27] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol at y Prif Weinidog, 9 Chwefror 2024
[28] Llythyr gan y Gweinidog dros y Celfyddydau a Threftadeth at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 8 Mawrth 2024
[29] Llythyr gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 6 Mawrth 2024